**Alun Ffred Jones AC/AM**
**Y Gweinidog dros Dreftadaeth**
**Minister for Heritage**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf/Our ref LF/AJ0048/10

Val Lloyd AC
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
Cynullliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Mehefin 2010

Annwyl Val

**Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)**

Roeddwn yn gwerthfawrogi'n fawr iawn y cyfle i ymddangos gerbron eich Pwyllgor ar 17 Mehefin i gael trafod ymhellach y darpariaethau sydd yn y Mesur arfaethedig. Yn ystod y cyfarfod addewais anfon nodyn i chi yngl•n â thri phwnc yr oedd aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn am ragor o eglurder yn eu cylch. Mae'r wybodaeth ychwanegol i'w gweld isod.

**Y diffiniad o gwasanaethau telathrebu a gynhwysir yn Atodlen 7 y Mesur arfaethedig**

Golyga gwasanaethau telathrebu, fel y'u diffinnir yn Atodlen 7, unrhyw wasanaeth sy'n cynnwys darparu mynediad at, neu gyfleusterau i wneud defnydd o, unrhyw system sy'n bod (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Deyrnas Unedig neu mewn man arall) at y diben o hwyluso trosglwyddo cyfathrebiadau drwy unrhyw fodd sy'n golygu defnyddio ynni trydanol, magnetig neu electromagnetig (gan gynnwys y cyfarpar a geir yn y system), ond nid yw'n cynnwys darlledu, y radio na'r teledu.

Credaf i Mike German, a gododd y mater, dderbyn fy sicrhad nad yw'n fwriad i osod dyletswyddau yng nghyswllt gwasanaethau megis *Skype, Facebook, Twitter* ac *Yahoo*, ond gofynnodd sut y gellid gwneud y bwriad hwn yn eglur.

Er mae'n bwriad yw canolbwyntio ar wasanaethau ffonau symudol a llinell dir mae'r Llywodraeth yn credu y dylai'r Mesur, yn Atodlenni 5 a 7, adlewyrchu ystod cymhwyster y Cynulliad yn gyfan gwbl o ran y personau y gellid gosod dyletswyddau arnynt dan fater 20.1 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Credwn yn ogystal ei bod yn bwysig bod y Mesur yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer y dyfodol i ddygymod â gwasanaethau sy'n esblygu'n barhaus, ac oherwydd hynny rydym wedi cynnwys y geiriad fel y mae'n ymddangos ar hyn o bryd yn y Mesur arfaethedig. Trwy wneud hynny mae'r Mesur yn ddigon hyblyg i alluogi safonau i ymateb yn gyflym i newidiadau'n ymwneud â mecanweithiau darparu gwasanaethau, o fewn cwmpas cymhwysedd y Cynulliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel 029 2089 8465
Ffacs • Fax 029 2089 8015
correspondence.alun.ffred.jones@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Serch hynny, os oes gan y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau yngl• n â sut i ddiwygio Atodlen 8 er mwyn adlewyrchu bwriad polisi y Llywodraeth yn well, byddwn yn hapus i'w hystyried.

**Yn dilyn ymchwiliad safonau pa bersonau fyddai'n agored i dderbyn, ar ran corff arbennig neu gr• p o gyrff, yr hysbysiadau cydymffurfio a roddir gan y Comisiynydd Iaith**

Bydd yr hysbysiad cydymffurfio perthnasol yn cael ei anfon at y person cyfreithiol sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r safon. Gall hwnnw fod yn unigolyn neu'n gr• p, fel y bo'n briodol. Wrth gynnal unrhyw ymchwiliad safonau sydd yn ymwneud â gwasanaethau post, bydd angen i'r Comisiynydd nodi'r dosbarth o bersonau y gallai safonau fod yn gymwys iddynt yn y pen draw. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys canfod pwy yw'r personau cyfreithiol dan sylw ac â pha safonau y byddai'n rhesymol a chymesur i'r personau hynny orfod cydymffurfio. Ni chaniateir cyflwyno hysbysiad cydymffurfio i unrhyw berson heb ymgynghori â'r person hwnnw yn gyntaf. Hefyd, bydd cael yr hysbysiad cydymffurfio, yn rhoi hawl i'r person a effeithir herio'r safonau ar y sail nad ydynt yn rhesymol neu'n gymesur yn y modd maent yn gymwys i'r person hwnnw (gweler adran 53).

**Sut fyddai gwahanol droseddau yn cael eu dosbarthu yn adran 82 y Mesur arfaethedig ac a fyddai troseddau lluosol yn arwain at ddirwyon lluosol.**

Bob tro ceir cwyn yn dilyn tor safon honedig, caiff y Comisiynydd ystyried p'un ai i gynnal ymchwiliad ai peidio (gweler adran 94). Os bydd y Comisiynydd yn ymchwilio ac yn penderfynu bod safon wedi'i thorri, caiff y Comisiynydd ddewis peidio â gweithredu, neu fe all ddewis o ystod eang o gamau gorfodi sy'n cynnwys cosbau sifil yn eu plith (gweler adrannau 76 a 77).

Rhaid i'r Comisiynydd ddatgan mewn dogfen polisi gweithredu, a fydd yn rhaid ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru (gweler adran 97), sut y mae yn bwriadu gweithredu'r camau gorfodi.

Cyn cymryd unrhyw gamau gorfodi, rhaid i'r Comisiynydd yn gyntaf ymgynghori â'r person y mae'n bwriadu gweithredu'n ei gylch, yngl• n â natur y gosb y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei rhoi, a darparu datganiad o'r rhesymau pam y mae'n bwriadu gweithredu yn y modd hwnnw – yn ogystal a rhoi'r cyfle i'r person wneud sylwadau ynghylch y cynigion (gweler adran 84). Unwaith y gorfodir y camau, mae gan y person gyfle i'w herio gerbron y Tribiwnlys ar y sail nad ydynt yn rhesymol neu'n gymesur (gweler adran 91(3)).

Pe ceir nifer o droseddau ar wahan, gellid rhoi cosb sifil o hyd at uchafswm o £5,000 ym mhob achos. Ond, cyn i'r Comisiynydd roi cosb sifil, byddai adran 82(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd roi sylw i'r materion a nodir yn adran 82(2) pan fydd yn penderfynu p'un ai rhoi cosb sifil i unrhyw berson ai peidio, a swm unrhyw gosb sifil. Y materion a nodir yn adran 82(2) yw: pa mor ddifrifol yw'r mater y mae'r gosb sifil i'w rhoi mewn cysylltiad ag ef; amgylchiadau'r person y mae'r gosb sifil i'w rhoi iddo; a'r angen am atal parhau neu ailadrodd y mater y mae'r gosb sifil i'w rhoi mewn cysylltiad ag ef.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth uchod o gymorth i'r Pwyllgor.

Alun Ffred Jones

**Alun Ffred Jones AC/AM**
Y Gweinidog dros Dreftadaeth / Minister for Heritage